

Cyfarfod:	Pwyllgor Pensiynau
Dyddiad:	27/03/2023
Teitl:	POLISI AR ADRODD TORRI'R GYFRAITH
Pwrpas:	Derbyn adborth gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r polisi newydd
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
Argymhelliad:	Cymeradwyo'r polisi newydd

1. Cyflwyniad

Fel rhan o'r prosiect Llywodraethu Da mae'n ofynnol i'r Gronfa gynhyrchu polisi mewn perthynas â Chofnodi Torri'r Gyfraith. Mae polisi wedi'i ddrafftio gan Hymans Robertson ar y cyd â swyddogion y Gronfa ac mae i'w weld yn **Atodiad A**.

Mae'n cynnwys gwybodaeth am y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer darganfod, monitro a, lle bo'n briodol, adrodd am achosion o dorri'r gyfraith fel sy'n ofynnol yn Neddff Pensiynau 2004 ac y manylir arnynt yng Nghod Ymarfer Rhif 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau - Llywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus.

NODER: Polisi thor-cyfraith mewn perthynas â gweithredu rheoliadau'r cynllun pensiwn sydd o dan sylw gyda'r polisi yma. Mi fuasai unrhyw dor-cyfraith troseddol e.e. twyll neu afreoleidd-dra ariannol yn cael ei ddelio gydag yn unol â pholisïau Cyngor Gwynedd.

2. Beth yw tor-cyfraith?

Mae torri'r gyfraith yn "weithred o dorri neu fethu ag ufuddhau'r gyfraith, cytundeb neu god ymddygiad." Yng nghyd-destun y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ("LGPS") gall gwmpasu sawl agwedd ar reoli a gweinyddu'r cynllun, gan gynnwys, er enghraifft, methiant:

- i wneud unrhyw beth sy'n ofynnol o dan Rheoliadau'r CPLIL;
- i wneud unrhyw beth sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth hollbwysig, canllawiau statudol cymwys neu godau ymarfer;
- i gadw cofnodion cywir;
- i weithredu ar unrhyw weithred neu anwaith twyllodrus a nodir;
- i gyflogwr i dalu cyfraniadau aelod a chyflogwr ar amser;
- i dalu buddion aelodau naill ai'n gywir neu'n amserol;
- i gyhoeddi datganiadau buddion blynyddol ar amser.

3. Beth yw diffyg cydymffurfio o dan y Rheoliadau CPLIL?

Gall diffyg cydymffurfio â rheoliadau'r CPLIL gwmpasu sawl agwedd ar reoli a gweinyddu'r cynllun, gan gynnwys methiant:

- i wneud unrhyw beth sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau CPLIL
- i gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau (e.e. Datganiad Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa, Datganiad Strategaeth Gyllido, polisïau disgresiwn, ac ati);

4. Cyfrifoldebau mewn perthynas â thorcyfraith

Mae'r cyfrifoldeb i adrodd am achosion a nodwyd o dorri'r gyfraith mewn perthynas â'r Cod Ymarfer yn disgyn ar y canlynol (a elwir yn "adroddwyr"):

- Aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor (Rheolwr y Cynllun);
- Aelodau'r bwrdd pensiwn lleol;
- Cyflogwyr y cynllun;
- Cynghorwyr proffesiynol (gan gynnwys actiwari'r Gronfa, ymgynghorydd budd-daliadau, cynghorwyr buddsoddi, cynghorwyr cyfreithiol); a
- Darparwyr trydydd parti (lle y'u cyflogir).

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor yn unig, ac aelodau'r bwrdd pensiwn lleol. Mater i'r gohebwy'r eraill yw sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau digonol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn nodi, asesu a, lle bo angen, adrodd am achosion o dorri rheolau. Bydd y Cyngor a'r bwrdd pensiwn lleol yn cymryd pob cam angenrheidiol i ystyried y toriad ac adrodd i'r Rheoleiddiwr, yn hytrach na chael unrhyw un o'r "gohebwy'r" eraill i adrodd am y toriad yn unig.

5. Proses

Mae gan bob swyddog perthnasol ac aelod etholedig o'r Cyngor, yn ogystal â holl aelodau'r bwrdd pensiwn lleol gyfrifoldeb i:

- nodi ac asesu difrifoldeb unrhyw doriad neu doriad tebygol;
- rhoi gwybod i'r swyddog monitro a'r swyddog adran 151 am bob toriad neu doriad tebygol;
- ar y cyd â chydweithwyr perthnasol, cytuno ar gamau gweithredu arfaethedig i unioni'r toriad a rhoi mesurau ar waith i sicrhau nad yw'r toriad yn digwydd eto, gan gael cyngor cyfreithiol neu gyngor arall priodol lle bo angen;
- sicrhau bod y camau unioni priodol wedi'u cymryd i unioni'r toriad neu doriad tebygol a'i atal rhag digwydd eto; a
- cydweithredu â'r Pwyllgor Pensiynau, y bwrdd pensiwn lleol a, lle bo angen, y Rheoleiddiwr, a chynorthwyo i roi gwybod am doriadau a thoriadau tebygol.

6. Sut y dylid hysbysu'r Rheoleiddiwr am dorri amodau?

Rhaid hysbysu'r Rheoleiddiwr yn ysgrifenedig am bob achos o dorri rheolau sylweddol. Gall hyn fod drwy'r post neu'n electronig. Mae'r Rheoleiddiwr yn annog defnyddio ei gyfleuster adrodd safonol trwy ei wasanaeth ar-lein Exchange.

Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr am bob achos o dorri rheolau trwy eu gwefan 'Exchange'.

7. Casgliad

Fe gyflwynwyd y polisi hwn i'r Bwrdd Pensiwn yn eu cyfarfod ar 6/3/2023 ac fe amlygwyd bod y polisi yn gosod proses glir i'r Gronfa mewn perthynas ag adrodd tor gyfraith.

Mae'r polisi hefyd wedi ei rhannu gydag Iwan Evans, Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd. Mae Mr Evans hefyd yn hapus gyda chynnwys y polisi.

Byddem yn gwerthfawrogi cymeradwyaeth y Pwyllgor i fabwysiadu'r polisi yma.